RECRIWTIO POBL SYDD CHOFNOD TROSEDDOL

1. Cefndir

Cyflwynwyd y ddeddf "The Recruitment of Offenders Act" (ROA) 1974 i sicrhau nad yw cyn-droeswddwyr, nad ydynt wedi ail-droseddi am gyfnod o amser ers y dyddiad cyhuddo, yn cael eu rhagfarnu pan yn ceisio am swyddi.

Mae'r ddeddf yn caniatau nad yw'n gyfreithiol angenrheidiol i gyn-droseddwyr i rannu gwybodaeth sefydliadau am gyhuddiadau sydd wedi eu cwblhau.

Er hynny, er mwyn diogelu grwpiau bregus penodol o fewn cymdeithas, mae yna nifer helaeth o swyddi a phroffesiynnau sy'n rhydd o'r ddeddf ac sy'n ychwanegol yn cynnwys swyddi sy'n galw am ymddiried llwyr.

Yn yr achosion hyn, mae hawl cyfreithiol gan sefydliadiau i ofyn i ymgeiswyr am fanylion cyhuddiadau, pun ai ydynt wedi eu cwblhau ai peidio.

2. Cyfrifoldebau

Cyfrifoldeb corfforaethol

Mae Tir Coed yn benderfynol i wneud pob ymgais i osgoi rhagfarn neu driniaeth anheg arall yn erbyn unrhyw un o'i staff, darpar staff neu ddefnyddwyr o'i wasanaeth, o ran tras, rhyw, crefydd, tueddiadau rhywiol, cyfrifoldeb am eraill, oed, anabledd corfforol neu gefndir troesddol, nad yw'n peryglu plant neu oedolion bregus.

Bydd Tir Coed yn sicrhau y cedwir unrhyw wybodaeth cofnod troseddol a ddarparir gan unigolyn yn gyfrinachol ac yn ôl gofynion y Ddeddf Diogelu Data a, lle bo'n berthnasol, Côd Ymarfer CRB.

3. Recriwtio

Bydd recriwtio yn dilyn canllawiau polisiau penodedig Tir Coed ac yn ôl Côd Ymarfer recriwtio Tir Coed fel a amlinellir isod.

Nid yw'n dilyn y bydd cofnod trosedd yn eich gwahardd rhag gweithio i Tir Coed. Bydd hyn yn ddibynnol ar natur y swydd ynghyd ag amgylchiadau a chefndir eich troseddau.

4 Côd Ymarfer Tir Coed

- Darperir polisiau Cyfleoedd Cyfartal a Recriwtio Cyn-droseddwyr Tir Coed i pob ymgeisydd ar gychwyn y broses recriwtio.

- Mae Tir Coed yn weithredol yn hyrwyddo cyfartaledd cyfle ac yn croesawi ceisiadau gan ystod eang o ymgeiswyr, gan gynnwys rhai chofnod trosedd.

- Dylid ymdrin ag ymgeiswyr sydd a chofnod trosedd yn deilwng ac yn ôl eu gallu i gwrdd a gofynion arbennig y swydd (e.e gofalu am blant ac oedolion bregus, a fyddai'n eithrio rhai ymgeiswyr).

- Bydd Tir Coed yn sicrhau bod pawb o fewn y sefydliad sy'n ymwneud 'r broses recriwtio wedi eu paratoi'n addas i adnabod ac asesu amgylchiadau a perthnasedd y troseddau. Byddwn hefyd yn sicrhau bod yr uchod wedi derbyn canllawiau a hyfforddiant addas yn y ddeddf berthnasol sy'n ymwneud chyflogi cyn-droseddwyr, e.e Deddf "Rehabilitation of Offenders" 1974.

- Heblaw bod natur y swydd yn caniatau i Tir Coed i ofyn cwestiynnau am holl gefndir troseddol yr ymgeisydd, yna gofynir am gyhuddiadau sydd heb eu cwblhau yn unig, fel a ddiffinir yn y Ddeddf "Rehabilitation of Offenders" 1974. Gofynir am y wybodaeth hyn ar gychwyn y broses ymgeisio.

- Ni wneir cais am Ddatganiad oni bydd asesiad risg trwyadl yn dynodi bod hyn yn gymesur ac yn berthnasol i'r swydd dan sylw. Ple mae Datganiad yn angenrheidiol i'r swydd, bydd y ffurflenni cais, hysbysebion y swydd a'r holl ddogfennau recriwtio yn nodi y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu Datganiad cyn iddo/iddi gael cadarnhad terfynol o gynnig y swydd.

- Ple mae Datganiad yn rhan o'r broses recriwtio, bydd Tir Coed yn argymell pob ymgeisydd a elwir am gyfweliad i ddarparu manylion eu cofnod troseddau yn gynnar yn y broses a chyn ymgymeryd Datganiad llawn. Ar gyfer y swyddi hyn, bydd Tir Coed will yn annog yr ymgeisydd i drosglwyddo'r wybodaeth hyn o'i wirfodd trwy ei anfon, ar wahan, mewn amlen gyfrinachol wedi ei chyfeirio i berson penodedig o fewn Tir Coed, a bydd Tir Coed yn gwaranti yr ymdrinir a'r wybodaeth yn gyfrinachol, gan ei ddangos i'r rhai sydd angen ei weld fel rhan o'r broses recriwtio yn unig.

- Mewn cyfweliad neu sgwrs neilltuol, bydd Tir Coed yn sicrhau sgwrs agored a chymesur am unrhyw droseddau neu unrhyw fater arall a ddatgelir gan yr ymgeisydd a'r/neu'r Datganiad a all fod yn berthnasol i'r swydd. Gall peidio a datgeli unrhyw wybodaeth sy'n uniongyrchol berthnasol i'r swydd arwain at ddileu cynigiad y swydd. Yn ogystal, os daw unrhyw wybodaeth, na chafodd ei ddatgeli mewn cyfweliad nac wrth dderbyn y swydd, i'r amlwg ar ôl cychwyn y swydd, gall Tir Coed derfynu'r cytundeb ar unwaith.

- Os bydd ymgeisydd yn datgelu cofnod troseddau difrifol, bydd y swyddog recriwtio o fewn Tir Coed yn ymgynghori gyda Cadeirydd y Bwrdd Rheoli. Dylai'r

penderfyniad i wrthod ymgeisydd ar sail, neu'n rhanol ar sail, cofnod trosedd fod o ganlyniad i anallu yr ymgeisydd i gwrdd ag agweddau neilltuol o ofynion y swydd. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i Tir Coed esbonio i'r ymgeisydd y rhesymau am wrthod ei cais.

- Bydd Tir Coed yn gwneud pob ymgeisydd am swydd sy'n gofyn am Ddatganiad, yn ymwybodol o fodolaeth Côd Ymarfer CRB, gan ddarparu copi pan fo'r galw.